

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Gwybodaeth am y rhaglen

Er bod y rhan fwyaf o'r modiwlau MSc yn seiliedig ar ddarllen gwerslyfr gosod unigol a nodiadau ategol dan arweiniad, nid oes gan M820 lyfr gosod. Darperir deunyddiau cyflawn y modiwl i'r myfyrwyr. Bydd angen i fyfyrwyr gwblhau chwe modiwl gwerth 180 o bwyntiau i ennill y radd. Mae M820 yn un o ddau fodiwl rhagarweiniol.

Disgrifiad o'r modiwl

Bwriedir i'r modiwl hwn fod yn gyflwyniad lefel mynediad i'r rhaglen MSc Mathemateg; a hwn fydd modiwl cychwynnol llawer o fyfyrwyr sy'n newydd i'r rhaglen. Felly, mae'n bosibl na fydd y myfyrwyr sy'n astudio M820 erioed wedi dysgu o bell, ac efallai y bydd angen mwy o gymorth arnynt oherwydd hyn. Mae'r band cyflog ar y modiwl yn cynnwys taliad i adlewyrchu'r ffaith bod cyswllt rhagweithiol gan y tiwtor yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn ymgysylltu â'r deunydd a'r TMA ac yn parhau i ymgysylltu â nhw.

Mae M820 yn datblygu damcaniaeth Calcwlws Amrywiadau, sef maes astudio sy'n cynnwys problemau sylweddol ym maes mathemateg bur a chymhwysol. Mae'r modiwl hefyd yn rhoi cyflwyniad i amrywiaeth o bynciau eraill, a bydd angen gwybodaeth ymarferol amdanynt yn y modiwl hwn a modiwlau eraill y rhaglen MSc. Mae'r rhain yn cynnwys calcwlws ffwythiannau sawl newidyn gwirioneddol, syniadau cydgyfeiriant, yn enwedig dilyniannau ffwythiannau a gofod fector normedig. Y prif bwnc fydd Calcwlws Amrywiadau ond bydd deunyddiau ategol sydd eu hangen mewn modiwlau MSc eraill hefyd wedi'u cynnwys. Bydd y pynciau hyn yn cynnwys calcwlws ffwythiannau o lawer o newidynnau, cydgyfeiriant dilyniannau ffwythiannau, problemau sy'n gysylltiedig â phroblemau gwerth ffiniau aflinol, priodweddau systemau Sturm-Liouville ac ehangiaadau ffwythiant eigen. Yn ogystal â hyn, nod y modiwl yw meithrin dealltwriaeth myfyrwyr o'r angen am fanwl gywirdeb mathemategol a gwybodaeth elfennol am bwysigrwydd hanesyddol a datblygiad y pwnc.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd anrhydedd dda mewn mathemateg neu bwnc sy'n uniongyrchol berthnasol i gynnwys y modiwl, ynghyd â thystiolaeth o astudiaethau ôl-raddedig llwyddiannus ym maes mathemateg megis gradd uwch mewn mathemateg
- tystiolaeth o weithio mewn maes sy'n uniongyrchol berthnasol i gynnwys y modiwl
- y gallu i ddarparu tystiolaeth o ddealltwriaeth lwyr o'r rhan fwyaf o'r deunydd a gaiff ei astudio yn y modiwl (er enghraifft, drwy gwblhau ymarfer marcio cyn y cyfwelliad yn llwyddiannus) a dangos y gallu a'r parodrwydd i ddatblygu dealltwriaeth o weddill y deunydd yn gyflym
- y gallu i gyflwyno mathemateg yn electronig a marcio dogfennau PDF
- y parodrwydd i ddefnyddio cyfleusterau e-ddysgu, megis:
 - gwefan y modiwl, a gwefannau eraill y Brifysgol, i lawrlwytho deunyddiau hanfodol a chael gfael ar wybodaeth arall
 - systemau'r Brifysgol er mwyn monitro cynnydd y myfyrwyr
 - e-bost a fforymau'r Brifysgol er mwyn cyfathrebu â'r myfyrwyr, tiwtoriaid a staff eraill mewn modd anghydamserol
 - meddalwedd tiwtorialau ar-lein y Brifysgol (rhoddir hyfforddiant) i gyfathrebu â myfyrwyr lle y bo'n gymwys
 - marcio aseiniadau myfyrwyr a gyflwynir yn electronig (ar ffurf PDF) ar y sgrin (system TMA ar-lein)

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- PhD mewn maes perthnasol
- profiad o addysgu ac arholi, yn enwedig ym maes addysg o bell ar lefel ôl-raddedig
- profiad o addysgu yn y maes pwnc arbenigol perthnasol ar lefel ôl-raddedig neu drydedd flwyddyn.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd gofyn i chi farcio aseiniadau'n electronig. Bydd y rhain ar ffurf PDF. Efallai y bydd gofyn i chi farcio aseiniadau papur.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	1a
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safon:	15
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3

Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei chymeradwyo eto, ac felly, mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.